



<b>CYFARFOD</b>	<b>Cydbwyllgor GwE</b>
<b>DYDDIAD</b>	28 Tachwedd 2018
<b>TEITL</b>	<b>Cyllideb GwE 2018/19 – Adolygiad 2il Chwarter</b>
<b>PWRPAS</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Diweddarau aelodau'r Cydbwyllgor ar adolygiad ariannol diweddaraf cyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2018/19.</li><li>• Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar yr amrywiadau ariannol sylweddol, gydag Atodiad 1 yn cynnwys y wybodaeth ariannol gyflawn.</li></ul>
<b>ARGYMHELLIAD</b>	Derbyn yr adroddiad.
<b>AWDUR</b>	Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd.

## 1. CASGLIAD

- 1.1 Prif gasgliad yr adolygiad chwarter 2 yw bod disgwyl bydd GwE yn cadw oddi fewn y cyllid Craidd a Grantiau Penodol sydd ar gael yn 2018/19.
- 1.2 Adroddwyd yn yr adolygiad chwarter 1af amcangyfrif tanwariant net o (£6,585) yn erbyn y gyllideb, gyda'r prif reswm yn ymwneud gyda throsiant staff.
- 1.3 Erbyn hyn mae'r tanwariant net wedi lleihau i (£994), ac mae rhan ddilynol o'r adroddiad yn egluro'r rhesymau tu ôl i'r prif amrywiadau.
- 1.4 Bwriedir cyflwyno cynllun gweithredu i'r Cydbwyllgor yn fuan, yn datrys yn barhaol y diffyg cyllidol amlygir yn rhan 2.3 a rhan 2.4.

## 2. AMRYWIADAU ARIANNOL

### 2.1 **Gweithwyr - Rheolaeth, Broceru, Safonau a Gweinyddiaeth:**

#### **Chwarter 2: tanwariant (£78,750) Chwarter 1: tanwariant (£77,700).**

Dim newid o sylwedd i'r hyn adroddwyd yn Chwarter 1. Mae trosiant staff, yn bennaf secondiad i Gyfarwyddwr Cynorthwyol o'r 1af o Fehefin wedi arwain at danwariant un-tro gan ariannu, ar sail dros dro, arbedion i'w ddarganfod (gweler 2.4).

### 2.2 **Cludiant – Costau Teithio:**

#### **Chwarter 2: tanwariant (£5,682) Chwarter 1: tanwariant (£4,932).**

Dim newid o sylwedd i'r hyn adroddwyd yn Chwarter 1. Mae tuedd costau teithio hanesyddol yn awgrymu bod y gwir gost flynyddol yn debygol o fod ychydig yn is na'r hyn sydd wedi ei sefydlu yn y gyllideb. Rhagwelir y bydd hyn yn parhau yn 2018/19.

### 2.3 **Cyflenwadau a Gwasanaethau:**

#### **Chwarter 2: Gorwariant £35,559 Chwarter 1: Gorwariant £28,168.**

Mae'r pennawd yma yn gorwario yn flynyddol am nifer o resymau. Disgwylir i hyn barhau yn 2018/19. Yn benodol i 2018/19, mae anawsterau penodi cyfieithydd dros dro, a gofynion ychwanegol rhai Prosiectau Penodol, yn cynyddu'r defnydd o gyfieithwyr allanol. Gwelir cynnydd bychan yn y gorwariant ar draws sawl pennawd.

### 2.4 **Arbedion i'w darganfod**

#### **Chwarter 2: Gorwariant £47,879 Chwarter 1: Gorwariant £47,879.**

Dim newid i'r hyn adroddwyd yn Chwarter 1, sef gorwariant, gan nad oes strategaeth barhaol hyd yma ar gyfer gweithredu'r targed arbedion. Defnyddir arbediad trosiant staff (gweler 2.1) i'r targed arbedion yn y tymor byr.

## 2.5 **Grant Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol**

### **Chwarter 2 : Niwtral Chwarter 1 : Niwtral.**

Dim newid i'r hyn adroddwyd yn Chwarter 1. Yn 2018/19 mae holl grantiau mae'r GwE yn ei dderbyn yn flynyddol, oni bai i'r Grant Datblygu Disgyblion, wedi ei gyfuno i un grant cynhwysfawr. Mae'r gyllideb wedi ei addasu i weithredu'r newid yma. Ni ragwelir gôr na than wariant hyd yma.

#### Dadansoddi'r grant gyflawn isod:

Datganoledig*	£25,908,641
Heb ei ddatganoli	£ 9,198,005
Cyfanswm	<b>£35,106,646</b>
Grant	£32,620,366
Arian Cyfatebol	£ 2,486,280
Cyfanswm	<b>£35,106,646</b>

\* Nid yw cyfrifon y GwE yn cynnwys grantiau wedi eu dosbarthu'n uniongyrchol i'r ysgolion.

## 3. **CRONFA TANWARIANT**

- 3.1 Ar ôl defnyddio £466,956 yn 2017/18, cyfanswm y gronfa ar gychwyn y flwyddyn gyllidol 2018/19 oedd £271,616, ac am y tro oherwydd ansicrwydd ariannu i'r dyfodol, nid yw hwn wedi ei ymrwymo i'w wario eleni.

### **ATODIADAU**

Atodiad 1: Cyllideb GwE 2018/19 – Adolygiad 2il Chwarter 2018/19.

## **BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

### **Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

### **Y Swyddog Cyllid Statudol:**

Cyd-awdur yr adroddiad.